

y dinesydd

Rhagfyr 2004 Ionawr 2005

PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH

Rhif 294

DATHLU AGOR CANOLFAN MILENIWM CYMRU

Wedi deng mlynedd o gynllunio agorwyd Canolfan Mileniwm Cymru - y ganolfan gelfyddydol bwysicaf yng Nghymru erioed - ddydd Gwener 26 Tachwedd. Cynhaliwyd penwythnos cyfan o ddiwyddiadau i ddathlu'r achylsur a denodd yr agoriad, ynghyd â chyfleusterau a phensaernïaeth ryfeddol yr adeilad newydd, sylw helaeth gan y cyfryngau Cymraeg a Saesneg. Dyma gam allweddol pellach yn y broses o gadarnhau datblygiad Bae Caerdydd yn ganolfan genedlaethol i'r celfyddydau a democratiaeth.

"Bwriad y prif bensaer oedd creu adeilad a fyddai'n apelio at Gymru gyfan, nid yn unig pobl Caerdydd a'r cymoedd," meddai Rhian Evans o gwmni peneseiri Capita Percy Thomas - gobaieth a adleisiwyd gan Brif Weinidog y Cynulliad, Rhodri Morgan, yn y seremoni agoriadol. Wedi ymweld â'r Ganolfan yn ystod diwrnod agored "Croeso i Ganolfan Mileniwm Cymru" ddydd Sadwrn 27 Tachwedd, teimlai Eleri Rogers, Croes Cyrlwys, fod y gobaith hwn eisoes wedi'i wireddu: "Roedd y byd a'i bobol yno," meddai. "Gwelais deuluoedd cyfan o bob rhan o Gymru, pob un yn teimlo bod y lle'n perthyn iddyn nhw. Roedd y lle'n hollgynhwysol. Roedd gwên ar wyneb pawb a phob un mor eithriadol o falch o Gymreicid y cyfan." Wrth gyfeirio at y defnyddiau Cymreig arbennig sy'n nodweddu'r adeilad meddai Eleri, "Rydych chi'n teimlo bod y defnyddiau Cymreig yn eich anwesu chi. Mae'r lle'n gartrefol, er ei fod mor enfawr."

Canolbwynt yr adeilad yw'r brif theatr, sef Theatr Donald Gordon. I ddathlu'r agoriad, cynhaliwyd dwy gyngerdd yno.

**NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA**

ARIAN I'R AELWYD HAMDDEN



Mr Jeff James ac aelodau o Bwyllgor Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd yn derbyn y sic gan Mr Owen John Thomas AC.

Cyngerdd Cymru i'r Byd oedd y gyntaf - cyngerdd i ddathlu gyrfaedd pump o artistiaid amlwg Cymru a'u cyfraniad i fyd cerdd, theatr a ffilm. Y pump a gafodd eu hanrhydeddu oedd y gantores a'r Fonesig Shirley Bassey, yr actores Siân Phillips, y soprano a'r Fonesig Gwyneth Jones, y cyfansoddwr Alun Hoddinott a'r diweddar Richard Burton. Cafodd Rhodri ab Owen o Benylan gyfle i ganu yn y gyngerdd gyda chôr CF1 a bydd yn cofio'r diwrnod am byth. "Roedd yn brofiad gwefreiddiol gan mai'r gyngerdd agoriadol oedd hi," meddai. "Roedd gweld y lle'n llawn yn dod â dagrau i'm llygaid."

Wedi canu awyr agored a sioe dân gwyllt wych nos Sadwrn cynhaliwyd ail gyngerdd y penwythnos - Gala Frenhinol Llwyfan i'r Byd - ar nos Sul 28 Tachwedd. Ymhlith y sêr a gyfrannodd at gyngherddau'r dathlu roedd Bryn Terfel, Dennis O'Neil, Mathew Rhys, Catrin Finch, Derek Jacobi, Syr Ian McKellen, Jonathan Pryce, Michael Ball, Nana Mouskouri, Robert Hardy a Ruth Madoc.

Bydd y Ganolfan newydd yn gartref cyffrous i saith o gwmnïau a sefydliadau celfyddydol sef:

Yr Academi Gymreig (Asiantaeth Hybu Llenyddiaeth Genedlaethol Gymreig a'r Gymdeithas Awduron)

Diversions: Cwmni Dawns Cymru

Opera Cenedlaethol Cymru

Touch Trust (therapy cyffwrdd a symud i blant ac oedolion ag anabledau dwys)

Tŷ Cerdd ("dod â byd o gerddoriaeth i Gymru a cherddoriaeth Cymru i'r byd")

Derbyniodd Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd gymhorthdal gan raglen loteri *Arian i Bawb Cymru*. Bwriedir defnyddio'r arian i drefnu teithiau i aelodau'r Aelwyd ac i brynu offer ffotograffiaeth ac arddangos lluniau.

Dywedodd Cadeirydd Pwyllgor yr Aelwyd, Mr Howard Spriggs, "Rydym yn falch iawn o'r arian yma a fydd yn galluogi ein haelodau, nifer ohonynt ag anawsterau teithio oherwydd oedran ac anabled, i ymweld â mannau diddorol. Roedd y drefn ymgeisio yn hawdd a chyflym - rwy'n argymhell y rhaglen grantiau *Arian i Bawb Cymru* i unrhyw un."

Theatr Hijinx (yn mynd â'r theatr broffesiynol i gymunedau trwy Gymru a Lloegr)

Urdd Gobaith Cymru: gwersyll ddinesig newydd sbon.

Ar du blaen y Ganolfan mae ffenestri hynod ar ffurf geiriau Cymraeg a Saesneg Gwyneth Lewis, y bardd o Gaerdydd: "Creu gwir fel gwydr o ffwrnais awen" a "In these stones horizons sing" - yn mynegi'r dyheadau o ran posibiliadau creadigol y cyfleusterau newydd i'r amrywiol gwmnïau preswyl a fydd yn awr yn eu defnyddio.

"Byddwch barod i gael eich ysbrydoli" yw'r neges i ninnau ar glawr rhaglen tymor agoriadol Canolfan Mileniwm Cymru. Am fwy o wybodaeth ffoniwch y Swyddfa Docynnau a Gwybodaeth, 08700 40 2000, neu ewch i wefan y Ganolfan: www.wmc.org.uk

Y Dinesydd

www.dinesydd.com

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan gweHendre a'i argraffu gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

Golygyddion y rhifyn hwn:

Alun a Mair Treharne

Golygydd y rhifyn nesaf:

Peter Gillard

Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Chwefror 2005 erbyn 24 Ionawr at:

Peter Gillard, Tŷ Llwyd, Drope Rd., Sain Siorys, Bro
Morgannwg CF5 6EP (Ffôn: 01446-760007; e-bost:
pagillard@yahoo.co.uk).

neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:

Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; e-bost:
JamesEW@caerdydd.ac.uk).

CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James. (Gweler uchod)

DERBYN A DOSBARTHU COPIAU

Os ydych am dderbyn *Y Dinesydd* drwy'r post, neu am
gynorthwyo gyda'r dosbarthu cysylltwch â CERI MORGAN,
43 Australia Rd, Y Mynydd Bychan, CF14 3BZ Ffon: 029
20621634. e-bost: ceri33@btopenworld.com

HYSBYSEBU

Mae 3,000 o gopiau o bob rhifyn o'r *Dinesydd* yn cael eu
dosbarthu. Mae'n gyfrwng hwylus i gyrraedd cyfran uchel o
Gymry Cymraeg y brifddinas.

Os ydych am hysbysebu yn *Y Dinesydd* y mis nesaf
cysylltwch â CERI MORGAN, 43 Australia Rd, Y Mynydd
Bychan, CF14 3BZ Ffôn: 07774-816209; e-bost:
ceri33@btopenworld.com

CYNORTHWYON OLYGYDDOL

Gwaith tîm o wirfoddolwyr yw cynhyrchu a dosbarthu'r
Dinesydd. Rydym bob amser yn croesawu pobl newydd i
ymuno â'r tîm! Os ydych yn barod i gynorthwyo mewn
unrhyw fodd - trwy gasglu newyddion, teipio erthyglau,
golygu rhifyn, etc. - yna cysylltwch â Chadeirydd Pwyllgor *Y
Dinesydd* (Gweler uchod)


CYFRANNU'N ARIANNOL

Mae parhad *Y Dinesydd* yn dibynnu ar roddion gan unigolion
a chymdeithasau. Mae ein Trysorydd, CERI MORGAN, yn
croesawu pob rhodd, bach a mawr. Anfonwch ato yn 43
Australia Rd, Y Mynydd Bychan, CF 14 3BZ Ffôn: 07774-
816209; e-bost: ceri33@btopenworld.com

APÊL Y DINESYDD

Mae pobl yn dal i anfon cyfraniadau i'r Apêl a dydy hi ddim
yn rhy hwyr i chi anfon eich cyfraniad tuag at y Gronfa!

CROESAIR Rhif 53 gan Rhian Williams



Ar Draws

- Mae rhoi hanner tro o gylch Falmai yn peri dryswch (7)
- Y Ffrangeg a boncyff o Loegr yn troi'n lwyр persawrus (5)
- 'Pwy _____ i'r Ddinas gadarn
Lle mae Duw'n arlwygo gwledd' (JGMH) (1'1,3)
- Bu Sali'n troi yng nghartref y cedrwydd (7)
- A wnaeth hwn ddechrau'n addawol? (3)
- Ffei! Onid yn derfysglyd mae yn darganfod? (2,7)
- Gwlad a sawr tail mewn cawdel (9)
- Mae'r oll ym misg y don (3)
- Creu cân a'r cilgant (7)
- Cors wedi ei gerfio o farmor anorffenedig (5)
- O! Taid, paid a thro i lymeitian! (5)
- 'Yn y preseb mewn cadachau
_____ roi'i ben i lawr'

I Lawr

- 'Os oes rhywun nad yw'n caru'r Arglwydd, bydded dan feltith
_____ (6,2) (1 Corinthaid)
- Ffeinio'r ffôl mewn lle hudolus (4)
- 'Creu gwir fel ___ o ffwrnais awen' (G.L.) (4)
- Glôyn gwyllt, uchel iawn, yn hercian (2,4)
- Cymdeithas yn dechrau casglu lili wen brydferth (4)
- Bod yn lluddiedig ar ôl coginio deg 'blini' (8)
- Ar gyfyl yr annwyl (4)
- Basn Noel druan - nid yw yma! (8)
- A genir salm i Ena yma? (8)
- 'Daeth Brenin yr hollfyd i _____ hadfyd,
Er symud ein penyd a'n pwn.' (5,3)
- Dwli Nia ffôl yw gorweddiann (6)
- Ar yn ail mae'r cnaf drwg yn cynnal (4)
- Ai un naif yw hwn? (4)
- Cynulliad cefnogwyr yn ôl o Lanilar efallai (4)

**Atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd. CF14 6AN
i gyrraedd erbyn 10 Ionawr 2005.**

Croesair Rhif 52

Ar draws: 1. Cornicyll; 6. Llaca; 8. Preseb; 9. Cansen; 10. Blodeu lle; 14. Cawr;
15. Dof; 16. Ogof; 17. Fendigaid; 20. Anaele; 22. Gwefus; 23. Edith; 24.
Gwresogi. I lawr: 2. Oeri; 3. Nosi; 4. Caboledig; 5. Llac; 6. Llandudoch; 7.
Caerllion; 11. Dyfeisgar; 12. Cadernid; 13. Prydferth; 18. Neis; 19. Euog; 21.
Eog.

Derbyniwyd 15 ymgais a'r cwbl yn gywir y tro yma, er rhai problemai gyda'r
cliwiau! Danfonir y tocyn llyfr i Bryn Evans, 52 Glenwood, Llanedeyrn.
Cafwyd yr atebion eraill gan Rhian Davies, Mel Dansford, Gwilym Lloyd
Edwards, Beryl Hall, Gaenor Hall, Heledd Hall, Gwenda Hopkins, H O
Hughes, Margaret Jones, Dilys Pritchard-Jones, Buddug Roberts, Huana
Simpson, Delwyn Tibbott a James Wiegold.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN



Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith
Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .

0845 6076070

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

'Paprika' - Bwyty Newydd yn y Bae

Er ei bod yn noson oer o Dachwedd mentrodd llawer o Gymry Cymraeg Caerdydd i noson agoriadol swyddogol tŷ bwyta newydd 'Paprika' yn Stryd Bute, Bae Caerdydd. Roedd tua 60 o bobl wedi cael y fraint o gael gwahoddiad gan berchnogion 'Paprika', y Cynghorydd Mohammed Sarul Islam a'i bartner busnes, Faiz Belal.

Roedd y fwydlen yn cynnig amrywiaeth eang - o gig oen i samosa llysieuol a chyri blodfresych. Roedd pob dim yn flasus iawn ac yn tynnu dŵr i'n dannedd! Yn wir, aeth llawer yn ôl am ail blataid!

Profiad dymunol oerdd gweld croestoriad o bobl o gymaint o wahanol gefndiroedd yn bwyta ac yn cael hwyl yng nghwmni Dirprwy Arglwydd Faer Caerdydd, y Cynghorydd Delme Bowen, a agorodd y noson drwy dorri'r ruban a chroesawu tŷ bwyta 'Paprika' yn rhan o fywyd cymdeithasol Caerdydd.

Mae 'Paprika' mewn lleoliad delfrydol yn agos i Ganolfan y Mileniwm - yn addas iawn am bryd blasus cyn neu wedi sioe. Gallaf eich sicrhau y cewch groeso cynnes gan y perchnogion a chyfle i flasgu yr holl ddanteithion y mae 'Paprika' yn eu gynnig. Iechyd da! Siân Couch




O'r chwith: Mohammed Sarul Islam, Delme Bowen a Faiz Belal

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Sara Gwilym, Caerdydd a Rhys Thomas, Caerffili ar eu dyweddïad. Mae Sara yn ferch i Carys Williams a'r diweddar Barchedig Meurwyn Williams, a Rhys yn fab i Eyron a Denise Thomas, Penpedairheol.

Llongyfarchiadau i Lisa Gwyneth a Jonathan Richard Saunders o Fferm Tŷ Canol, Caerffili ar enedigaeth Samuel Richard, brawd bach i Tomos John.

Llongyfarchiadau i Siôn Young ar ennill Pencampwriaeth Tennis Bwrdd i



Siôn Young

Ddnyon yng Nghlwb David Lloyd yn ddiweddar. Mae Siôn yn ddisgybl ym Mlwyddyn 11 yn Ysgol Gyfun Glantaf.

Llongyfarchiadau i Margaret a Gwynne Evans, Y Rhâth, ar enedigaeth eu hwyres Gwyneth Gregory, plentyn cyntaf i Angharad a James, a chyfnither i Rhys, Elis, Betsan, Elian, Awen, Aeron, Megan a Cai. Ganed Gwyneth yn Vancouver ar Dachwedd 18fed.

GORSEDD Y WLADFA'N ANRHYDEDDU GWILYM

Llongyfarchiadau cynnes i Gwilym Roberts, Rhiwbeina, ar gael ei wneud yn aelod o'r Orsedd yn Eisteddfod Chubut, Patagonia, yn ddiweddar. Gwyddom oll am gyfraniad nodedig Gwilym i feithrin cysylltiadau â'r Wladfa. Yn yr un seremoni yn y Gaiman anrhydeddwyd Maelor Jones a Sonia Evans, ewythr a modryb Veronica Paola Jones de Kiff, Parc y Rhath.

Yn eisiau.

Dyn neu fenyw ifanc i weithio fel au pair gyda theulu Cymraeg yn Llundain.

Byw mewn. Dechrau mis Ionawr. Ffoniwch 0208 876 6751 am fanylion

Staff Manwerthu

Siop Portmeirion, Canolfan Mileniwm Cymru

Canolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd yw'r digwyddiad celfyddydol mwyaf cyffrous yn Ewrop heddiw. Nid yn unig mae'n ganolfan i opera, balé, dawns a sioeau cerdd, bydd hefyd yn rhoi cartref o dan yr un to i saith sefydliad celfyddydol Cymreig gan gynnwys yr Academi a'r Urdd.

Mae cwmni Siopau Portmeirion Cyf. yn gweithredu prif uned fanwerthu'r ganolfan.

Gwahoddir ceisiadau am swyddi Staff Manwerthu llawn amser a rhan amser ar gyfer yr uned hon. Rydym yn chwilio am bobl frwdfrydig sydd â diddordeb yn y celfyddydau. Byddai profiad blaenorol yn fantais, ynghyd â sgiliau dwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym yn cynnig graddfa o £6 yr awr ynghyd â phecyn da o fuddiannau staff.

Cysylltwch â Gareth Evans, Rheolwr Personél, Portmeirion, Gwynedd LL48 6ET ar ebost gareth@swyddfa.co.uk neu ffoniwch Swyddfa'r Siopau ar 01766-770774.

YSMYGU MEWN MANNAU CYHOEDDUS: POBL CYMRU O BLAID CYFYNGIADAU

Mae pobl yng Nghymru eisiau cyfyngiadau ar ysmegu, yn arbennig mewn ardaloedd lle caiff bwyd ei weini a'i fwyta. Mae arolwg a gynhaliwyd ledled Cymru yn dangos bod pobl yng Nghymru wedi cael llond bol ar anadlu mwg pobl eraill, yn arbennig pan fyddant yn bwyta.

Er bod traean o'r oedolion ymhlith y boblogaeth yng Nghymru yn ysmegu, mae'r arolwg yn dangos bod tri oedolyn o bob pedwar o blaid cyfyngiadau ar ysmegu mewn mannau cyhoeddus.

Dyma rai o brif gasgliadau'r adroddiad a luniwyd ar sail yr arolwg:

- 1 mae tri chwarter (76%) oedolion 16 oed a throsodd o blaid cyfyngiadau o ryw fath ar ysmegu mewn mannau cyhoeddus;
- 2 mae bron 2 o bob 5 (38%) yn cefnogi gwaharddiad llwyr ar ysmegu mewn mannau cyhoeddus;
- 3 mae bron 2 o bob 5 (38%) yn dweud y dylid cyfyngu ysmegu mewn mannau cyhoeddus i ardaloedd a neilltuwyd yn arbennig;
- 4 mae 70% o oedolion yn cefnogi gwaharddiad llwyr ar ysmegu mewn mannau lle caiff bwyd ei weini a'i fwyta, yn cynnwys pob bwyty a chaffi.

Mae'r arolwg yn dangos bod dosbarth cymdeithasol yn ffactor sy'n dylanwadu'n sylweddol ar y tebygrwydd y bydd person yn ysmegu a'u hagwedd tuag at ysmegu. Mae tystiolaeth yr arolwg hefyd yn amlygu rhai tueddiadau sy'n achosi pryder am ddyfodol poblogaeth Cymru, yn cynnwys:

- 1 mae pobl iau yn fwy tebygol o ysmegu na phobl hŷn (mae 38% o bobl 16-34 oed yn ysmegu ar hyn o bryd o'i gymharu â 22% o bobl dros 65 oed);
- 2 mae pobl sy'n byw mewn aelwydydd gyda phlant yn fwy tebygol o fod yn ysmegu na phobl sy'n byw mewn aelwydydd heb blant (36% o gymharu â 29%).

Cynhyrchwyd yr adroddiad, yn seiliedig ar arolwg o ychydig dros 1,000 o bobl, yn sail i'r drafodaeth bresennol ar ysmegu mewn mannau cyhoeddus, a'i anfon at Bwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Ysmegu mewn Mannau Cyhoeddus. Dywedodd Vivienne Sugar, Cadeirydd Cyngor Defnyddwyr Cymru: "Mae'r arolwg yn anfon arwydd clir i'r llywodraeth nad

Bwrlwm Bro Eirwg

Wel, dyma dymor prysur arall yn dirwyn i ben, ac mae plant Bro Eirwg wedi bod yn brysur yn ôl eu harfer !!

Mae sawl blwyddyn wedi bod ar daith yn ystod y tymor er mwyn dysgu am wahanol agweddau o'u gwaith.

Aeth Blwyddyn 2 ar ymweliad â Sain Ffagan i ddysgu am wahanol gartrefi, gan ymweld â Ffermdy Llwyn yr Eos a thai teras Rhydycar. Roedd y plant yn synnu'n fawr wrth weld y gwahaniaeth rhwng y tŷ teras cyntaf a'r tŷ olaf. Roedd pawb yn cytuno mai'r tŷ olaf oedd y mwyaf cysurus!

Pwrpas gwahanol oedd i ymweliad plant Blwyddyn 3. Fe aethon nhw yn ôl mewn amser i ddysgu am fywyd y Celtiaid yng Nghymru. Doedd yr athrawon ddim yn nabod y plant pan ddaethon nhw yn ôl i'r ysgol a phatrymau glas y Celtiaid dros eu hwynebau!

Ymweliad â phwll glo oedd ar amserlen Blwyddyn 5. Fe aethon nhw i Barc Treftadaeth y Rhondda er mwyn profi bywyd yn y pwll glo. Cafodd y plant amser gwych a dysgu cymaint, ond roedd pawb yn teimlo bod ymweld â phwll glo yn fwy dymunol na gweithio yno bob dydd.

Aeth llawer o fysiau ar daith i Aberdâr gan gludo plant o'r dosbarthiadau Derbyndd hyd at Flwyddyn 5 i Theatr y Coliseum yn Aberdâr i weld pantomeim 'Breuddwyd Branwen'. Braf oedd gweld chwedl Gymreig ar lwyfan llawn lliw ynghyd â dawnsio gwych a chanu hyfryd.

Cafodd plant Blwyddyn 5 brofiad gwych o gydweithio â'r bardd Ceri Wyn Jones. Llwyddodd y plant i gyfansoddi cwpledi doniol yn ei gwmi a bu'r ymweliad yn sbardun ar gyfer darllen a mwynhau barddoniaeth! Erbyn hyn, llyfr mwyaf poblogaidd y dosbarth yw llyfr newydd o gerddi Ceri Wyn Jones!! Yn ogystal â hyn, derbyniodd y plant lythyr arbennig oddi wrth T. Llew Jones yn ateb eu cwestiynau wedi iddynt ddarllen llyfr yr awdur, *Trysor Plas y Wernen*, yn ddiweddar.

Er mwyn atgyfnerthu ein cynlluniau ABCh, cawsom ymweliadau gan blismones. Tanlinellodd bwysigrwydd

yw'r cyhoedd yng Nghymru yn fodlon mwyach goddef amgylchedd llawn mwg, yn arbennig lle mae bwyd yn cael ei weini. Anogwn y Cynulliad Cenedlaethol i barhau i lobio dros sefydliadau bwyd di-fwg."

YR AWR HAPUS YN DAIR OED

Ydy, mae'n wir - mae'r Awr Hapus bellach yn 3 oed! Cyd-ddigwyddiad amserol oedd i mi ddigwydd cael gair bach yng nghlust Andrew, rheolwr Gwesty Pentref Coryton, wrth gyrraedd ar fore Llun, 22 Tachwedd. Beth am baned i ddathlu'r achlysur, awgrymais wrtho. Chwarae teg, am 11.00 o'r gloch roedd coffi a theisennau bach blasus yn disgwyl deg ohonom.

Yn rhifyn mis Tachwedd fe gofiwch i mi wahodd darllenwyr *Y Dinesydd* i 'fabwysiadu' dysgwr neu ddysgwraig. Un ymateb a ddaeth i law hyd yn hyn (22/11): diolch yn fawr i'r Athro Emeritws Meic Stephens, Yr Eglwys Newydd, am godi'r ffôn. Erys y gwahoddiad i eraill ohonoch ystyried mabwysiadu dysgwr neu ddysgwraig yn eich stryd neu eich ardal chi.

Wele adduned blwyddyn newydd ar gyfer 2005: helpwch mewn modd ymarferol ein dysgwyr brwdfrydig i siarad mwy o iaith y nefoedd!! Tybed a fydd yna arwyddion Cymraeg cywir newydd drws nesaf yn Asda Coryton cyn i chi ddarllen hyn o eiriau?!

Gwilym Dafydd

cadw'n ddiogel i blant CA1 a chyflwynodd negeseuon pwysig ynglŷn â Bwlian i CA2. Roedd ymweliad 'Hyncs mewn Tryncs' hefyd yn atgyfnerthu neges arbennig, sef pwysigrwydd bwyta'n iach. Llwyddodd yr hyncs i drosglwyddo eu neges mewn ffordd doniol iawn, ond eto roedd y plant i gyd yn sylweddoli difrifoldeb eu neges.

Mae'r tîm rygbi wedi bod yn brysur eleni yn chwarae yn erbyn ysgolion Bryn Hafod, Rhiwbeina a Gwaelod y Garth.

Llongyfarchiadau i Lloyd Reece a Sam Sweetingham sydd wedi eu dewis i gynrychioli tîm rygbi ysgolion Caerdydd dan 11.

Roedd pawb yn teimlo'n falch iawn o fedru trosglwyddo sicc o £1,000 i elusen LATCH yn ogystal â rhoi sicc o £2,000 i unigolyn o'r ysgol. Mae'r elusen yma yn agos iawn at ein calonnau yma ym Mro Eirwg.

Cyfrannodd ein harolwg rywfaint tuag at brysurdeb y tymor. Mae pawb wrth eu bodd â'r canlyniad, ond cewch glywed mwy pan ddaw'r adroddiad swyddogol allan yn y flwyddyn newydd !!

CRONFA GLYNDWR YR YSGOLION CYMRAEG

Ar 30 Tachwedd cafodd Cronfa Glyndwr yr Ysgolion Cymraeg ei hail-lansio yn Neuadd y Cynulliad ym Mae Caerdydd. Pwrpas yr achlysur oedd tynnu sylw at newid strategaeth yn y modd y mae'r Gronfa'n gweithredu, a'r ffaith ei bod yn dymuno chwarae rhan weithredol mewn ymgyrchoedd newydd i ddenu mwy o blant i gael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd y gwesteion yn cynnwys Aelodau'r Cynulliad a chynrychiolwyr Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Mudiad Ysgolion Meithrin a Rhieni dros Addysg Gymraeg. Cawsant eu diddanu gan ddau o ddisgyblion Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail - datganiad hyfryd ar y delyn gan Fflur Elin, a datganiad llafar gan Harriet John, a enillodd ar y Llefaru dan 8 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ynys Môn, eleni.

Beth yw Cronfa Glyndwr?

Sefydlwyd Cronfa Glyndwr yn Elusen gofrestredig yn 1963 a'r nod, yn syml, oedd hybu addysg Gymraeg. Yn y cyfnod ers hynny cafodd nifer o rieni gymorth i dalu am gludiant eu plant i ysgol Gymraeg - yn aml oherwydd nad oedd darpariaeth leol ar gael - a rhoddwyd cymorth i lawer iawn o grwpiau fel Cylchoedd Meithrin, Cylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Mam a'i Phlentyn, dalu am adnoddau, cynorthwywyr a rhent.

O hyn ymlaen, bydd y strategaeth yn wahanol. Yn hytrach nag ymateb i geisiadau o'r math yna, bydd y Gronfa'n dethol ardaloedd arbennig lle mae ymgyrchoedd lleol dros addysg Gymraeg yn cael eu trefnu, a chynnig cymorth reit ar y dechrau - pan mae'n anodd, yn aml iawn, cael arian i gychwyn unrhyw fenter. Yn y modd hwn, teimlwn y gallwn **wneud y gwahaniaeth** rhwng llwyddo a methu.

Beth am enghraifft?

Ysgol Gyfun Gŵyr

Yn sgil agor Ysgol Gyfun Gymraeg arall yn Abertawe, mae angen 'cryfhau' dalgylch Ysgol Gŵyr. Mae ymgyrchwyr lleol eisoes wedi bwrw ati ac mae Cronfa Glyndwr yn falch o fod wedi cyfrannu dros £800 i roi hwb i'r ymgyrch

STORïAU YSMUDIADOL CAERDYDD

Mae'r gyntaf mewn cyfres o arddangosfeydd i nodi canmlwyddiant y ddinas yn 2005 newydd agor yn adeilad hanesyddol Hen Lyfrgell Caerdydd. Yn dwyn y teitl *Storïau Ysmudiadol 1905-2005*, mae'r arddangosfa'n adrodd hanes perthynas Caerdydd â chludiant dros y 100 mlynedd diwethaf, gan edrych ar y ffordd y byddai pobl leol yn defnyddio cludiant ar gyfer gwaith a hamdden. Mae'r arddangosfa wedi ei darlunio'n

trwy helpu i dalu am daflenni gwybodaeth ar gyfer ardaloedd Ysgolion Cynradd Cymraeg Login Fach a Bryn Iago, a thalu'r rhent ar gyfer Cylchoedd Ti a Fi Tircoed a Chasllwchwr tan y byddan nhw wedi cael eu traed oddi tanyn nhw.

Ysgol Gyfun Llanhari

Yn sgil agor Ysgol Gyfun Gymraeg newydd ym Maesteg, bydd dalgylch presennol Llanhari'n newid yn ddirfawr, a bydd angen denu mwy o blant i'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo - ynghyd â sefydlu mwy o ysgolion cynradd Cymraeg o fewn y dalgylch. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail wrthi'n paratoi ymgyrch i ddenu mwy o blant, ac mae Cronfa Glyndwr wedi cyfrannu £500 tuag at baratoi taflenni pwrpasol i'w dosbarthu i rieni'r ardal ddechrau'r flwyddyn newydd, pan fydd yr ysgol yn dathlu ei phen-blwydd yn 50 oed.

Rhagwelir y bydd angen cymorth ariannol yn fuan yng Ngwent ac yn ardal Wrecsam. Gobeithiwn y gall Cronfa Glyndwr **wneud y gwahaniaeth** yno hefyd.

O ble mae'r arian yn dod?

Rhodd sylweddol gan sylfaenwyr y Gronfa, Trefor a Gwyneth Morgan, yn 1963, oedd y dechrau. Derbyniwyd sawl cyfraniad sylweddol ers hynny mewn rhoddion uniongyrchol a thrwy ewyllysiau gan gefnogwyr yr achos o bob rhan o Gymru.

Gwybodaeth bellach ynglŷn â chael cefnogaeth i ymgyrchoedd neu sut i gyfrannu:

Mrs M Griffiths, 70, Brynsiriol, Tŷ Isaf, Caerffili. CF83 2AJ (Trysorydd) neu

Mr B James, 52, Highfields, Llandaf, Caerdydd. CF5 2QB (Ysgrifennydd)

helaeth â ffotograffau a ffilm o archifau'r ddinas a gydbblethir ag atgofion a storïau personol - rhai'n hapus, rhai'n drist a rhai od iawn.

Stori felly yw hanes Billy Brian a oedd yn byw yn yr Eglwys Newydd. Ef, gellid dadlau, oedd campfeiciwr gorau Cymru. Dyfarnwyd cwpan arian i Billy am 'feicio wysg ei gefn o Gasnewydd i'r *Moon and Stars*, Caerdydd, heb ddisgyn oddi ar ei feic'.

Yn ogystal â storïau a ffotograffau, mae *Storïau Ysmudiadol* yn cynnwys gwrthrychau sy'n darlunio hanes cludiant yng Nghaerdydd, gan gynnwys y beic a ddefnyddiwyd gan y gwerthwr pysgod chwedlonol, Tommy Letton, ac eitemau cofiadwy Bws Caerdydd. Mae'n arddangosfa ryngweithiol a chynhelir nifer o weithdai a digwyddiadau cysylltiedig yn ystod y misoedd nesaf. Mae'r cyngor yn gobeithio y bydd yr arddangosfa'n dwyn llw o atgofion ac yn edrych ymlaen at glywed ymateb ac adborth yr ymwelwyr. Mae arddangosfa *Storïau Ysmudiadol 1905-2005* yn yr Hen Lyfrgell yn Yr Aes tan 29 Mai 2005 ac mae'n addas ar gyfer pob oed, gan gynnwys plant. Mae'r arddangosfa ar agor bob dydd (ag eithrio 24-28, 31 Rhagfyr ac 1 Ionawr) rhwng 10 a.m. a 4 p.m., mynediad am ddim.

I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch 2035 3266 neu ewch i'r wefan sef www.cardiff.gov.uk.

CADAIR EISTEDDFODOL

Llongyfarchiadau mawr i Ifan Roberts o Bentyrch ym Mro Cadwgan ar ennil cadair Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn yn Sir y Fflint eleni. Cafodd ganmoliaeth uchel am ei gyfraniad i gystadleuaeth a oedd yn llwyddiannus o ran nifer a safon y cerddi a ddaeth i law.

Doedd Ifan ddim ar gael i dderbyn ei wobwr, felly un o'r beirniaid, Aled Lloyd Davies, a safodd yn y bwlech yn ystod y cadeirio. Finau gafodd yr anrhydedd o gludo'r gadair o fy mhentref genedigol i gartref y bardd buddugol.

Bu eisteddfod yn Nhreuddyn ers diwedd y ddeunawfed ganrif. Rydym yn hynod o ddiolchgar i bawb, fel Ifan, sy'n cefnogi'r ymdrechion i gadw'n diwylliant yn fyw ar Glawdd Offa.

Huw Roberts. Creigiau

Y LLYFRGELL GENEDLAETHOL YN APWYNTIO MARI YN E-OLYGYDD CYNTAF

I gydnabod pwysigrwydd cynyddol y rhyngwrwyd, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi apwyntio ei e-olygydd cyntaf erioed, Mari Elin Osborne. Yn wreiddiol o Gaerdydd, graddiodd Mari ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth, ac yn wahanol i nifer o'i chyfoedion, penderfynodd symud o'r brifddinas i Aberystwyth i sefydlu ei gyrfa.

Mae lleoliad daearyddol Aberystwyth yn cyfyngu ar nifer yr ymwelwyr posib â'r Llyfrgell Genedlaethol, ond mae'r rhyngwrwyd yn cynnig ffordd o oresgyn y rhwystrau corfforol hyn drwy beri bod y Llyfrgell o fewn cyrraedd unrhyw un yn unrhyw le. Ar hyn o bryd mae gwefan y Llyfrgell yn derbyn ar gyfartaledd tua 400,000 'trawiad' y mis, bron bedair gwaith y nifer sy'n ymweld â'r Llyfrgell ei hun yn Aberystwyth yn flynyddol.

Meddai Mari, a raddiodd mewn daearyddiaeth y llynedd: 'Dwi'n falch iawn i weithio i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, yn enwedig ar brosiect mor gyffrous â'r wefan. Fel un o gyn-fyfyrwyr Aberystwyth, a oedd yn defnyddio'r Llyfrgell yn rheolaidd, rwy'n sylweddoli pa mor werthfawr yw'r wefan ar gyfer addysg ac ymchwil. Wrth i'r gwasanaethau ar-lein gynyddu, edrychaf ymlaen at fod yn rhan o'r datblygiadau diweddaraf.'

Llwyddiant cynyddol y wefan oedd yr ysgogiad i greu swydd yr e-olygydd, a phrif waith Mari fydd cydlynu datblygiad strategol y wefan. Bu nifer o ychwanegiadau gwerthfawr at y wefan dros y flwyddyn ddiwethaf: ail-lansio gwefan newydd Archif Sgrîn a Sain Genedlaethol Cymru, sefydlu siop ar-lein, a gwefan addysg sydd ar fin cael ei lansio. Serch hynny, hwyrach mai'r ychwanegiad mwyaf sylweddol at y wefan yw'r *Drych Digidol* sy'n arddangos rhai o ddaliadau a chasgliadau enfawr y Llyfrgell drwy lun, sain a thestun, ac a gaiff ei ddiweddarau'n fisol. Ar hyn o bryd mae'r *Drych Digidol* yn arddangos 50,000 o ddelweddau, gan gynnwys rhai o drysorau pwysicaf Cymru, megis un o'r llawysgrifau Cymraeg cynharaf i oroesi, *Llyfr Du Caerfyrddin*, a'r copi cynharaf o'r anthem genedlaethol *Hen Wlad fy Nhadau*. Dros y misoedd nesaf bydd bron miliwn o ddelweddau newydd yn cael eu rhoi ar-lein wrth i ddegau o



filoedd o ewyllysiau Cymreig ymddangos ar y wefan – adnodd gwych ar gyfer y nifer cynyddol o bobl yng Nghymru a thu hwnt sydd â diddordeb mewn hanes teulu a hanes lleol.

COFRESTR O FUDIADAU GWIRFODDOL

Mae Cyngor Dinas Caerdydd yn ceisio sefydlu cronfa ddata gynhwysfawr o'r sefydliadau sector gwirfoddol sy'n gweithredu yng Nghaerdydd.

Mae gwella'r cysylltiadau rhwng y Cyngor a'r sector gwirfoddol wedi cael ei gydnabod fel blaenoriaeth yng Nghaerdydd ers amser maith. Mae'r Compact Sector Gwirfoddol wedi bod yn gweithio'n galed i ymdrin â'r mater hwn dros y flwyddyn a aeth heibio. Hwn fydd y cam pwysig cyntaf tuag at wella'r cysylltiadau o fewn y ddinas ac er mwyn dod i ben â'r gwaith, mae'n rhaid i ni gael eich help chi.

Gallwch gael ffurflen oddi wrth Joanne Eunson, Cyngor Caerdydd. 20872537

Y SELAR

Mae'r cylchgrawn newydd 'Y Selar' yn canolbwyntio ar y sîn roc Gymraeg.



Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf ym mis Tachwedd ac mae'n cynnwys gwybodaeth ac adolygiadau o gigs led-led Cymru.

Rydym yn ffodus yng Nghaerdydd fod gigs cyson yn cael eu cynnal yng Nghlwb Ifor Bach a Chlwb Y Toucan.

Yn ôl yr adolygiadau roedd yna ddawnsio bywiog i set Lo-Cut a Sleifar yn y Toucan. Yng Nghlwb Ifor roedd y band Kenavo yn rapio ac uchafbwynt un noson ym mis Hydref oedd set llawn egni Mattoidz.

Bydd Ashokan yn hyrwyddo eu halbym newydd ar noson Abri yn y Toucan ar Rhagfyr 19.

ELIN SMITH, YR EGLWYS NEWYDD

Penderfynais beidio â danfon cardiau Nadolig eleni ond hoffwn ddymuno llawenydd yr Ŵyl i bob un o'm ffrindiau niferus a charedig. Bydd *Diabetes Cymru* yn derbyn rhodd yn lle costau cardiau.

Yn gywir iawn

Elin

Cyfeirlyfr Gwasanaethau Cymraeg



- * Plymwyr
- * Trydanwyr
- * Cyfrifwyr
- * Garddwyr
- * Adeiladwyr
- * Mecanics
- * Doctoriaid
- * Gwarchodwyr plant
- * Gwerthwyr tai
- * Dylunwyr
- * Pobol trin gwallt
- * Deintyddion ...



Mae Menter Caerdydd yn bwriadu cynhyrchu Cyfeirlyfr cynhwysfawr sy'n cynnwys rhifau ffôn busnesau/darparwyr/arbenigwyr sy'n cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghaerdydd.

Os ydych yn cynnig neu yn derbyn gwasanaeth trwy'r Gymraeg, cysylltwch ag Owain Llwyd ym Menter Caerdydd ffôn – 2056 5658 neu ar e-bost – Owainllwyd@mentercaerdydd.org



www.mentercaerdydd.org
029 20565658

Gwyl Aeaf Caerdydd - CF1, Côr Caerdydd a Chôr Aelwyd Hamdden

Unwaith eto eleni, mae'r Fenter yn trefnu adloniant Cymraeg gyda'r hwyr yng Nghwyl Aeaf Caerdydd. Mae'r Wyl yn ganolbwynt dathliadau Nadolig Cyngor Caerdydd. Bob Nos Lun yn ystod mis Rhagfyr, fe fydd yna gorau o Gaerdydd yn canu carolau Cymraeg yn y Bandstand wrth y Rinc Ia. Felly beth am alw draw i ymuno â ni ar un o'r dyddiadau isod? Yn ogystal â'r corau yn canu carolau, fe fydd cyfle i chi sgelfrio, mynd i'r ffair, neu ymlacio â gwydriad bach o win cynnes!!

Nos Lun, Rhagfyr y 6ed: CF1
Nos Lun, Rhagfyr y 13eg:
Côr Aelwyd Hamdden Caerdydd
Nos Lun, Rhagfyr yr 20fed:
Côr Caerdydd




Parti Nadolig Clybiau Plant Wythnosol y Fenter

Parti arbennig ar gyfer y plant sy'n mynychu'r clybiau isod:

Clwb Dawns, Clwb Jiwdo, Clwb Nofio, Clwb Cloccio, Clwb Celf, Clwb Sbaeneg a'r Clwb Gymnasteg. Rhowch wybod i ni yn y swyddfa os oes gan y plant ddiddoredeb!

Nos Sadwrn, Rhagfyr y 18fed yn Neuadd y Sgowtiaid, Pontcanna.
4.30yp - 6yp



CANOLFAN MILENIWM CYMRU

Diwnod Agored yng Nghanolfan Mileniwm Cymru

Cyfle i gael eich tywys o amgylch y Ganolfan gan staff Cymraeg a chyfle am banded a sgwrs! Rhaid archebu o flaen llaw. Dydd Sul, Ionawr yr 16eg rhwng 2.00 a 5.00 y prynhawn. Croeso cynnes i bawb!



Chwaraeodd tîm Rygbi Merched Cymry Caerdydd ei gêm rygbi gyntaf yn erbyn Clwb Rygbi Gwernyfed dydd Sul, Tachwedd y 7fed. Colli bu hanes y merched, ond roedd hi'n dipyn o brofiad ac yn ddiwrnod a hanner!! Mae'r merched wrthi'n trefnu gêm arall ar gyfer diwedd mis Ionawr.

Hwyl yr Wyl yn Café Junior

Yn dilyn llwyddaint y diwrnodau meithrin yng Nghwyl Aeaf Caerdydd y llynedd a'r dathliad Gwyl Ddewi yn Neuadd Llanofor, rydym yn cynnal sesiynau i ddathlu'r Nadolig mewn caffi newydd yn y Rhath - Café Junior. Mae'r sesiynau'n addas i blant meithrin a'u teuluoedd rhwng 10.30 a 12.30.

£1-50 i blant rhwng 1 ac 8 oed.

Dydd Llun, Rhagfyr y 6ed G w e n d a Owen.

Dydd Llun, Rhagfyr y 13eg Sali Mali.

STOMP SERCH

Beth am ddathlu Santes Dwynwen yng nghwmni 16 o feirdd yn cystadlu am lwygaru arbennig y STOMP SERCH yn Neuadd Oakdale, Amgueddfa Werin Sain Ffagan?

Nos Fawrth, Ionawr y 25ain am 7.30yh.

£10 yn cynnwys bwffe cynnes a gwydraid o win wrth gyrraedd!

Nifer cyfyngedig o docynnau, felly archebwch o flaen llaw.



Dathlu'r Hen Galan yn y Mochyn Du

Adloniant yng nghwmni grŵp gwerin o'r Wyddgrug - Pen Tenny.

Ymweliad gan y Fari Lwyd a Dawnsywyr Twrch Trwyth.

Nos Wener, Ionawr y 14eg. 8.30yh ymlaen.



Mae Clwb Anghenion Arbennig y Fenter yn cyfarfod bob nos Fercher yn Ysgol Gyfun Plasmawr rhwng 5.30yh a 7yh. Mae'r staff brwdfrydig yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau o ddringo a choginio i gerddoriaeth. Croeso i aelodau newydd.

YSGOL PLASMAWR

Sioe Gerdd yr Ysgol

Ar y 9fed, 10fed a'r 11eg o Dachwedd agorwyd drysau Ysgol Plasmawr i dderbyn cynulleidfaoedd brwdfrydig i fwynhau addasiad o'r Opera Roc 'Pum Diwrnod o Ryddid' gan Penri Roberts, Linda Griffiths a Derec Williams. Rhai o'r prif gymeriadau oedd Rhidian Marc (James Morris), Rhys Cahill (Richard Jerman), Hannah Stephens (Ruth), Siriol Dafydd (Marged), Daniel Lloyd (Marsh), Nanw Williams (Ann Williams) a Cai Parry Jones (Thomas Morgan) a chafwyd perfformiad trawiadol a adlewyrchai hanes y siartwyr yn Llanidloes yn 1839. Yn ogystal â chorws o fonedd a giang, roedd hefyd fand o ddisgyblion ac athrawon yr ysgol yn cyfeilio i 16 o ganeuon gwefreiddiol. Mewn gair, roedd y cynhyrchiad yn ysbrydoledig! Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion a diolch yn fawr iawn i'r athrawon a oedd ynghlwm â'r sioe. Edrychwn ymlaen at y cynhyrchiad nesaf!

Elan Isaac, Bl 13

Taith yr Adran Ffrangeg i Paris

Aeth nifer o ddisgyblion Blynyddoedd 8 a 9 ar daith i Paris a pharc Eurodisney gyda'r Adran Ffrangeg ym mis Hydref. Ar ôl teithio drwy'r nos fe gyrhaeddodd Dŵr Eiffel. Aeth y rhan fwyaf ohonom i gopa'r tŵr ond nid oedd eraill am fentro! Wedi gweld y golygfeydd prydferth fe aethom yn ôl ar y bws am tua awr ac yna cyrraedd y gwesty. Yn anffodus roedd yna dywydd gwael yn ein haros a chymerodd y daith yn hirach na'r disgwyl!

O'r diwedd fe gyrhaeddodd y gwesty a chael bwyd. Mae'n rhaid dweud, doedd y bwyd ddim yn wych ond roeddem yn ddiolchgar i'w gael! Cawsom noson gynnar a chodi y bore wedyn yn barod i fynd i Eurodisney. Cododd pawb am wyth o'r gloch y bore a mynd i lawr i gael brechwast traddodiadol Ffrengig.

Roedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod yn Eurodisney a phawb wedi gwario llawer o arian. Roedd y parc wedi ei addurno ar gyfer Calan Gaeaf – dynion â phennau pwmpen a phwmpen fawr yng nghanol y parc.

Ar ein diwrnod olaf fe ymwelom â'r Bateaux Parisiens a gweld y golygfeydd prydferth. Ar ddiwedd y dydd fe gyrhaeddodd Calais a gwario gweddill ein harian yn y ganolfan siopa anferth sydd yno. A dyna oedd diwedd y daith; dwi'n siwr y cafodd pawb amser gwerth



'Pum Diwrnod o Ryddid'

chweil (hyd yn oed yr athrawon!)

Lois Mererid Williams, Bl 9

Efelychiad o'r Cenhedloedd Unedig (ECU)

Ym mis Tachwedd cafodd deuddeg disgybl breintiedig o Flwyddyn 12 gyfle i gynrychioli tair gwlad ac un mudiad mewn ffug-gyfarfod y Cenhedloedd Unedig, wedi ei sefydlu ar gyfer ysgolion Cymraeg dalgylch y De. Cawsom gyfle i drafod dau bwnc sy'n peri cryn dipyn o broblemau o fewn nifer o wledydd, sef Ymyrraeth Ddyngarol a Dŵr, neu'n fwy perthnasol, prinder dŵr. Fel un o gynrychiolwyr gwlad yr Almaen, nid oedd llawer o ddadleuon ar gael (o'i gymharu â gwlad fel Irac) gan ei bod nawr yn wlad sefydlog iawn, ond cawsom gyfle i gynnig ein help fel gwlad bwerus a chyfoethog i greu 'deddfau' newydd i geisio hybu a helpu'r gwledydd llai ffodus.

Er i nifer o ddiwyblion (bron pawb, a dweud y gwir) deimlo ychydig o swildod ar ddechrau'r cyfarfod, ni fu llawer o amser cyn bod y dadleuon a'r anghytuno'n dechrau, a dwi'n siwr bod llawer o'r diolch i'r Wasg (Rhydfelen) am hybu nifer ohonynt! Bu'n ddiwrnod diddorol ac yn llawer o hwyl, er yr holl drafod brwd a'r sgysiau tanbaid. Roedd yn gyfle i ddysgu mwy am wledydd tramor, ac i gymdeithasu â'r ysgolion Cymraeg eraill. Llongyfarchiadau i Ysgol Gwynllyw ar ennill tlws Siaradwyr Gorau'r efelychiad (a Phlasmawr yn ail!) Fe ddown i'r brig y flwyddyn nesaf!

Nanw Williams, Bl 12.

Taith Hanes i America

Roedd hi'n teimlo'n rhyfedd iawn yn sefyll o flaen lawnt y Tŷ Gwyn ar ein noswaith gyntaf yn America. Roedd pawb wedi blino'n lân ar ôl diwrnod hir o deithio a'r holl gwestiynau wrth ddod drwy'r awdurdodau Americanaidd! Ond, profiad gwerth chweil oedd gweld yr adeilad hwn wedi'i oleuo yn y nos, ac un giard unig yn sefyll o flaen y drws yn

amdiffyn yr arweinydd mwyaf pwerus yn y byd.

Lle go dawel oedd Washington D.C gan ystyried mai prifddinas America ydi hi. Yn ôl Jim (ein tywysydd hollwybodus), roedd hyn am nad oes neb yn byw yng nghanol Washington ei hun am ei bod yn llawn adeiladau gwleidyddol. A phe na baem o dan ei arweiniad ef, ni fydden ni wedi gallu mwynhau'r profiad o ymweld â Thŷ'r Cynrychiolwyr ac eistedd yn yr oriel gan ddychmygu'r trafodaethau sydd wedi digwydd yn yr ystafell honno dros y blynyddoedd. Roedd hi'n anodd iawn peidio teimlo'n fychan wrth weld strwythurau anferthol fel Cofadail Washington (sydd hyd yn oed yn fwy yn y byd go-iawn nac ar y teledu!), ond hefyd wrth gerdded drwy fynwent Arlington, Cofgolofn Fietnam a Chorea, a oedd yn atgof o'r holl filwyr fu farw yn y rhyfeloedd hynny.

Bythgofiadwy oedd y lluniau a'r ffeithiau brawychus yn Amgueddfa'r Holocaust er ei bod hi'n anodd peidio â digalonni wrth ddarllen am yr erchylltra a fu. Amgueddfa wych arall oedd Amgueddfa Genedlaethol yr Awyr a'r Gofod ble cafodd nifer ohonom gyfle i hedfan jet yr awyrlu Americanaidd ben i waered - mewn efelychydd realiti gwiredus!

Dihangfa o addysg hanesyddol oedd y nosweithiau pan oedd hi'n bosibl mwynhau bwyta ac ymweld â llefydd fel 'The Hard Rock Cafe' a'r 'ESPN Zone', ac er bod hyn yn flas ar fywyd Americanaidd ychydig yn fwy modern na'r hyn oedd i'w weld yn yr amgueddfeydd, ni allai fod wedi ein paratoi ar gyfer bwrlwm a phrysurdeb Efrog Newydd!

Fe aeth y bws yn dawel ar ôl troi'r gornel oedd yn arwain at y bryn gyferbyn ag Ynys Manhattan. Gyda'r haul yn machlud yn y pellter a'r adeiladau fel cewri yn sefyll yn gadarn ar draws y dŵr, allen ni ddim fod wedi dychmygu croeso mwy gwefreiddiol i Efrog Newydd. Roedd y cyferbyniad rhwng y ddinas newydd hon a Washington D.C yn amlwg yn syth gan i ni orfod gyrru mewn tagfeydd am dros awr cyn cyrraedd y gwesty!

Wedi gollwng ein bagiau a cheisio ymdopi gyda'n hamgylchedd dieithr newydd, roedd rhaid i ni neidio'n syth i fewn i fywyd Efrog Newydd gan ddechrau brysio fan hyn a fan draw, gan fynd yn gyntaf i ben Adeilad yr Empire State. Erbyn i ni gamu allan i'r oerfel ar lawr 86, roedd hi wedi tywyllu ac felly cafodd pob un ohonom y cyfle i weld 'Yr Afal Mawr' gyda'i holl oleuadau yn disgleirio – golygfa anhygoel dwi'n siwr



Y disgyblion yn Efrog Newydd

na fydd neb yn ei hanghofio!

Ac os nad oedd hynny'n ddigon o oleuadau am un noson, cawsom fynd i Times Square, i ganol sŵn a bwrllwm y ddinas i gael mwynhau pryd o fwyd yn un o'r dwsinau o fwytai enwog oedd wedi eu lleoli o amgylch y sgwâr. Ar ymweliadau eraill i'r fan honno, llwyddom i gael cipolwg ar stiwdio MTV a hyd yn oed 'The Naked Cowboy'!

Roedd y tywydd yn fendigedig wrth gerdded yn hamddenol drwy Little Italy a Chinatown cyn hwylio ar y cwch agored ar draws i Ynys Ellis, gan basio'r 'Statue of Liberty' wrth wneud hynny. Llwyddodd ambell un o'r athrawon i losgi hyd yn oed! Yn ogystal â hynny, fe gerddon ni i lawr i ardal Wall Street am ychydig gan weld yr adeiladau sy'n rheoli'r farchnad stoc. Wedi hynny, cawsom gyfle i weld 'Ground Zero', darn anferth o dir gwag yng nghanol yr holl grafwyr awyr, ac arno groes haearn wedi'i gwneud o ran o strwythur un o'r tyrrau.

Doedd hi ddim yn bosib mynd i Efrog Newydd heb ymweld â Broadway, ac fe fuom ni'n ddigon lwcus i gael y cyfle i fynd i wyllo 'The Lion King' yn cael ei pherfformio ar un o'r llwyfannau enwog hynny. Hwyl oedd gallu gweld yr holl ganeuon enwog yn cael eu perfformio'n fyw, a sylwi ar y set a'r gwisgoedd syfrdanol a chymhleth wnaeth wneud y noson honno yn un llawn adloniant o'r safon uchaf.

Yr ymweliad addysgiadol olaf ar y daith oedd ein hymweliad â'r Cenedloedd Unedig, rhan o'r trip oedd yn llawn ffeithiau diddorol am waith y C.U. ledled y byd a ffeithiau am gost rhyfel, nid yn unig yn ariannol ond yn feddyliol a moesol. Diddorol oedd cael cipolwg ar y siambrau ble mae holl wledydd y byd yn dod ynghyd i drafod materion gwleidyddol, economaidd a milwrol, a dysgu am y rhan mae'r C.U. yn ei chwarae mewn materion byd-eang.

Cyn ffarwelio â'r ynys brysur oedd bellach yn dechrau dod yn gyfarwydd i ni, roedd rhaid i ni fynd i sglefrio iâ yn

Central Park am awr yn yr heulwen, cyn rasio draw at y siopau er mwyn prynu ein holl anrhegion a chofroddion! Roedd Macy's yn orlawn wrth i ni geisio'n gorau glas i fynd i bob adran i weld beth oedd ar gael i'w brynu yno. Llwyddodd pawb i gael anrheg (neu ddau!) i fynd adre gyda hwy, ac wrth ddod i ddiwedd y daith rhaid oedd mynd i'r maes awyr a breuddwydio am y gwyliau anhygoel a fu wrth gysgu ar y ffordd adref.

Diolch yn fawr iawn i'r holl athrawon am drefnu'r daith ac am fynd â ni.

Ffion Rolph, Bl 12

Taith yr Adran Wyddoniaeth i Lundain

Ar ddydd Mawrth, yr unfed ar bymtheg o Dachwedd, fe aeth rhai o flynyddoedd 10, 11, 12, 13 i Lundain gyda'r Adran Wyddoniaeth. Roedd yn rhaid codi'n gynnar er mwyn bod yn yr ysgol am chwarter i saith. Gyda phob un person yn hanner cysgu, dechreuom ein taith hir i Lundain. Cyrhaeddodd y ddinas tua hanner awr wedi deg ac aethom yn syth i'r Amgueddfa Wyddoniaeth.

Yn yr Amgueddfa roedd yna lawer o arddangosfeydd ar wahanol agweddau o wyddoniaeth. Roedd yn ddiddorol darganfod sut datblygodd gwyddoniaeth trwy'r oesoedd. Wrth edrych o gwmpas yr amgueddfa roeddwn yn ysu am fynd i weld yr Adran Fioleg, a phan



Steffan a'i fwyd blasus!

gyrhaeddodd ni roedd yna lawer i'w weld am wahanol fathau o driniaeth, moddion ac offer. Roeddwn wedi treulio tipyn o amser yn yr ystafell a oedd yn arddangos offer a diagramau sydd yn gysylltiedig â bod yn filfeddyg. Roedd gen i lawer o ddiddordeb yn y rhan yma o'r amgueddfa am fy mod yn gobeithio cael gyrfa fel milfeddyg.

Ar ôl cinio roedd siawns i ni fynd i siopa. Aeth y chweched i Stryd Oxford ac arhosom ni flwyddyn 10 ac 11 yn Knightsbridge lle cawsom gyfle i siopa yn Harrods a Harvey Nichols! Rhai oriau'n ddiweddarach dyma bawb yn cwrdd wrth ochr y bws ger yr Albert Hall, ein dwylo yn llawn bagiau a wynebâu'n edrych yn flinedig. Roeddem yn barod i ddychwelyd i Gymru!

Lowri Llewelyn, Bl 10

Drama BT

Daeth grŵp o actorion i'r ysgol ym mis Tachwedd. Roedd tri pherson yn actio yn y ddrama am fwlio sy'n digwydd mewn ysgolion a tu fas i ysgolion. Eu henwau yn y ddrama oedd Tess, Jo a George. Tess a George oedd yn chwarae y rhan bwlio a Jo oedd yn chwarae rhannau y disgybl a'r ferch newydd. Roedd y ddau fwli yn gwneud bywyd yn anodd iawn i Jo. Roedd pawb yn credu bod y ddrama'n ddiddorol ac yn drist. Sylweddolom fod bwlio yn ddifrifol iawn ac yn digwydd i lawer o blant ac oedolion. Mae pawb wedi clywed y stori am y ferch a gafodd ei bwlio'n ddifrifol, roedd hi'n stori drist. Dyna'n union a ddigwyddodd i Jo yn y ddrama.

Ffion Eirug a Marianne Dupuy

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Steffan Jones o Flwyddyn 11 sy'n astudio arlwygo yn yr ysgol. Y mae wedi ei ddewis i fynd ymlaen i rownd derfynol Cymru yng nghystadlueth Futurechef 2005 sy'n cael ei threfnu gan asiantaeth Springboard, sy'n cefnogi addysg arlwygo. Bydd y rownd nesaf yn cael ei chynnal yng Ngholeg UWIC, Colchester Avenue, ar yr 20fed o Ionawr ac fe fydd y buddugol yn cynrychioli Cymru yn y rownd derfynol yn Llundain ym mis Mawrth. Coginiodd Steffan 2 gwrs, yn cynnwys prif gwrs o gyw iâr wedi ei stwffio gyda saws gwin gwyn a madarch ynddo gyda thatws duchess wedi peipio a moron a ffa i'w garneisio. Paratodd bwddin toffi gludiog gyda saws hufen a thoffi wedi ei osod ar y plât fel gwe pry copyn ar gyfer yr ail gwrs. Blasus iawn! Pob lwc i ti Steffan!

Llongyfarchiadau i dîm pêl-rwyd Bl 9 ar guro Ysgol Howells 9-5.

YSGOL GLANTAF

Pob lwc i Miss Siwan Thomas

Ar ddiwedd tymor y Nadolig mae Miss Siwan Thomas o'r Adran Saesneg yn ein gadael i ymuno ag Adran Saesneg Ysgol Plasmawr. Mae Miss Thomas wedi bod yn athrawes yn yr ysgol er mis Medi 2000 a hoffon ni i gyd yn ddisgyblion a staff ddymuno pob lwc iddi yn ei swydd newydd!

'Jiwdas'

Unwaith eto eleni perfformiwyd sioe wefreiddiol gan ddisgyblion yr ysgol! Cafwyd pedair noson ysgubol o actio a chanu safonol, gyda chynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi'r talent a welwyd ar lwyfan yr ysgol! Roedd Emyr Edwards a Delwyn Sion, sgriptiwr a chyfansoddwr y sioe, wedi'u plesio'n fawr â pherfformiad gwych y noson olaf. Llongyfarchiadau mawr i bawb a oedd ynghlwm â'r cynhyrchiad - yn athrawon a disgyblion talentog.

Mae angen eich help!!

Mae angen eich help gyda gardd Adran Anghenion Arbennig yr ysgol! Mae clwb garddio'r ysgol wedi bod wrthi'n ddygn ers dechrau'r tymor yn datblygu'r ardd - ar ôl y penwythnos o waith caled gan rai o'n rhieni nôl yn mis Mehefin-ond araf iawn yw ffrwyth eu llafur! Mae gwir angen help i dorri'r tir! Felly os ydych yn adnabod rhywun sy'n gallu cael gafael ar Jac Codi Baw BACH ac yn barod i helpu'r achos da hwn, plis cysylltwch â ni yn yr ysgol.

Hoffem ni fel ysgol ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd!

Gwasanaeth Nadolig Adran Iau Ysgol Pencae

Eglwys Gadeiriol Llandaf

Dydd Iau, 16.12.04,
9.00 - 10.00 a.m.

Croeso i bawb



Bydd casgliad tuag at gynnal a chadw yr Eglwys Gadeiriol

GROTO NADOLIG S4C YN YMWELD Â PHARC VICTORIA

Mae Groto Planed Plant Bach S4C wedi bod ar daith ar hyd a lled Cymru wrth i'r Nadolig agosáu. Eleni, mae'r groto ar ffurf ogof fawr, cartref dros dro i'r dyn pwysig ei hun, Siôn Corn. Ymwelodd y groto â deunaw o fannau yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr a bydd ei stop olaf ym Mharc Victoria, Caerdydd, ar ddydd Sadwrn 18 Rhagfyr (11.00 a.m. - 3.30 p.m.).

Bydd ymweliad â'r groto Nadoligaidd yn brofiad bythgofiadwy i blant a rhieni fel ei gilydd. Mae awyrgylch llawn hud a lledrith yno a bydd holl ffrindiau'r plant, Sali Mali neu aelodau Triongl, yno i'w croesawu ac i ddarllen stori iddynt. Yna bydd cyfle i gwrdd a derbyn anrheg gan



Siôn Corn yn ogystal â chyfle i ddweud helô wrth rai o gymeriadau **Planed Plant Bach** fel Sam Tân, SuperTed, Norman Price a Melog.

Bydd cyfle yn ogystal i wneud ychydig o siopa Nadolig yn Siop S4C a fydd yn gwerthu nwyddau aml-gyfrwng fel y CDs, DVDs casetiau, fideos a'r llyfrau diweddaraf.

Bydd tâl mynediad o £2.00 i bob plentyn a bydd system o archebu tocynnau ymlaen llaw yn weithredol ar y diwrnod yn unig.

TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd
o brofiad

**Ailweirio, gosod systemau
larwm a chawodydd**

PRISIAU RHESYMOL

Ffoniwch

Caerwyn Davies

ar 029 20868208

neu 07967 558664

Dawnswyr

Twrch Trwyth

Eich 'gym' wedi cau
neu'n rhy ddrud?

Cadwch yn heini tra'n cadw'ch
traddodiad!

Croeso i ddawnswyr a cherddorion
ifanc eu hysbryd o bob oed a gallu.

Ymarferion yng Nghlwb Ifor Bach,
Caerdydd
pob nos Fercher, 8.00 - 10.00

Cysylltwch â:

Dewi Rhisiart 029 20309490
dewirhisiart@ntlworld.com

Twmpathau, arddangosfeydd,
priodasau!



Ogam Igam

**Siop esgidiau plant
yn Windsor Arcade, Penarth**

Esgidiau o'r DU a'r cyfandir, yn cynnwys
Start-rite, ECCO, Ricosta, Inch blue,
Giesswein, Buckle-My-Shoe, Primigi...

**Dewis da o esgidiau ysgol, oed iau i'r ardegau
Llawer math a steil arall o esgid**

Staff wedi'u hyfforddi; gellir trefnu apwyntiad

Ar agor Llun-Sad 10 i 5.30 Ffon 029 2070 4254 www.ogam-igam.com

YSGOL GYFUN BRO MORGANNWG

Disgyblion cyfrwng-Cymraeg yn rhagori yn Saesneg eto!

Llongyfarchiadau gwresog i saith o ddisgyblion Ysgol Gyfun Bro Morgannwg, sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth ryngwladol yn ddiweddar mewn cystadleuaeth ysgrifennu a drefnwyd gan y Gymanwlad. Denodd y gystadleuaeth dros 5,000 o ymgeisiadau oddi wrth 1,100 o ysgolion mewn 54 o wledydd.

Roedd Lowri Barrance o Fl. 10 yn ail yn y grŵp oedran 15-16 am ei thraethawd ar y pwnc "What do you think you will be doing in ten years' time?" Golyga hyn fod Lowri'n bedwerydd allan o'r holl ymgeisiadau yn ei chategori – canlyniad gwirioneddol wych!

Yn yr un grŵp oedran, derbyniodd Elena Cresci (Bl. 11) Ganmoliaeth Uchel, ac roedd Canmoliaeth hefyd i Bethan Willetts (Bl.10). Derbyniodd Charlotte Peters a Tomos Davies (ill dau ym Ml. 9) Ganmoliaeth yn y categori oedran 13-14. Ac am eu cerddi ar y pwnc "Fire" canmolwyd Ruth Pilcher a Mollie Arbutnot o Fl. 8 yn y grŵp oedran 11-12.

Prif nod y gystadleuaeth hon yw annog pobl ifanc i weithio tuag at y safonau uchaf yn academiaidd ac ym maes ysgrifennu creadigol, a'u hannog i ddadansoddi'r byd maent yn byw ynddo drwy eu profiadau personol. Mae Adran Saesneg Ysgol Gyfun Bro Morgannwg yn ymfalchïo yn llwyddiant ei disgyblion yn y gystadleuaeth safonol hon am yr ail flwyddyn yn olynol.

Croeso Cymraeg cynnes i'n hymwelwyr o'r Almaen

Mae disgyblion Bl. 9 a'u teuluoedd wedi



Ar y brig am ysgrifennu traethodau

rhoi croeso mawr yn ddiweddar i 24 o fyfyrwyr o'r Leninger Gymnasium yn Grünstadt, yr Almaen. Bu'r ymweliad yn llwyddiant mawr, gyda thripliau i'r Pwll Mawr, Llancaiach Fawr, Castell Caerdydd a Stadiwm y Mileniwm. Cafodd y disgyblion o'r Almaen flas o fywyd yn ein hysgol ni hefyd, drwy gysgodi eu ffrindiau newydd am ddiwrnod. Cafwyd digon o adloniant fin nos, gan gynnwys bowlio deg, a'r disgo gorfodol wrth gwrs – sy'n amlwg yr un mor boblogaidd yn yr Almaen ag ydyw yng Nghymru!

Dyma'r trydydd tro i'r ddwy ysgol drefnu taith gyfnewid. Yn ôl Ms Rhian Morgan, Pennaeth Ieithoedd Tramod Modern yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg, mae'r cyfnewid yma'n rhoi cyfle i'r disgyblion gael blas ar sut beth yw byw ac astudio mewn gwlad arall. 'Maen nhw'n cael cymaint mwy allan o drefniant fel yma nag ymweliad "one-off", achos maen nhw'n cael cyfle i ymarfer eu hiaith mewn sefyllfa gartref ac ysgol' meddai. 'Mae y na gyfeillgarwch go iawn yn datblygu, sy'n cael ei gynnal drwy lythyrau a'r e-bost. Yn sicr, roedd y dagrau'n llifo pan adawodd yr Almaenwyr ar ddiwedd yr wythnos!'

Ond doedd dim rhaid aros yn hir tan ailgyfarfod y tro hwn – gan fod

disgyblion Ysgol Gyfun Bro Morgannwg wedi dychwelyd i Grünstadt yn ystod hanner tymor.

Mae'r lluniau'n dangos y disgyblion o'r Almaen yng Nghastell Caerdydd, a grŵp o ddisgyblion ac athrawon Ysgol Bro Morgannwg yn ystod ymweliad â Grünstadt yng ngwyliau'r haf.

GWRES GWYN

Oes rhywun wedi gwasanaethu eich bwylwr eleni?
Nac oes?


Cysylltwch â
Gwyn Rhys Jones

Gosodwr Cofrestredig Rhif 190209

Tŷ Gawlo Isaf,
Cefn Mably. CF3 6LP

07974 80 30 89

gosod a symud rheiddiaduron, adnewyddu bwyleri ac ystafelloedd ymolchi, diweddarau systemau ac unedau rheoli, darganfod a datrys namau mewn systemau, tystysgrifau diogelwch



Newyddion o'r Eglwys

Ebeneser, Heol Siarl

Dathlu'r Diwygiad

Fe aeth criw o Ebeneser i'r CIA ar nos Sul 31 Hydref i ymuno â 4,000 o Gristnogion Caerdydd a'r cylch i gofio a dathlu Diwygiad 1904 – 05. Yr oedd yn brofiad arbennig cael bod yno yn addoli yng nghwmni Rob Parsons a Nia ac yn gwranddo ar Selwyn Hughes y pregethwr byd enwog.

Cardiff Concern

Hyfryd oedd cael croesawu Rachel Jones i'r cwrdd gweddi cenhadol nos Lun 8 Tachwedd i sôn am *Cardiff Concern*. Y mae'r mudiad hwn yn gweithio'n benodol i gynghori pobl sydd yn wynebu argyfyngau yn eu bywydau ac yn cael trafferth i ymdopi. Y maent yn delio gyda phroblemau fel tor-priodas, iselder, unigrwydd ac anawsterau teuluol. Yn y cwrdd gweddi cenhadol nesaf ar nos Lun 6 Rhagfyr edrychwn ymlaen at glywed Gwen Emyr yn sôn am ei gwaith fel gweithiwr Cristnogol ysgolion Caerdydd a'r Cylch.

Y Gymdeithas

Cynhaliwyd noson o'r Gymdeithas nos Fawrth 9 Hydref a hynny yng nghwmni Leah Jones o Amgueddfa Sain Ffagan. Siaradodd Leah yn fyrlymus effeithiol am eglwys Llandeilo, Talybont sydd ar fin cael ei chwblhau yn yr amgueddfa ar ôl y dasg fanwl o'i symud a'i hadleoli. Diolch i Megan Williams am ei gwaith yn trefnu.

Pregethwyr Gwadd

Daeth dau bregethwr gwadd atom ddydd Sul y 14 o Dachwedd. Braint fawr inni fel eglwys oedd cael croesawu y Parchedigion Shem Morgan a Dyrinos Thomas i'n harwain yn yr oedfaon. Diolchwn iddynt am eu harweiniad.

Sioeau Cerdd

Hoffem longyfarch ein hieuenctid a gymerodd ran yn y sioeau cerdd 'Pum Diwrnod o Ryddid' a 'Jiwidas'. Yn wir llongyfarchwn y ddwy ysgol, Plasmawr a Glantaf, am y cyflwyniadau gwefreiddiol a gafwyd ganddynt.

Bore Coffi

Cynhaliwyd bore coffi a ffair Cymorth Cristnogol yn Ebeneser fore Sadwrn 13 Tachwedd. Llwyddwyd i godi £1,200. Diolchwn i bawb fu wrthi'n brysur yn paratoi ac yn gwneini ar y diwrnod.

Eglwys y Crwys

Clwb Teithio '91

Diolch i Mr Aled Evans am drefnu taith arall i gefnogwyr Clwb Teithio '91. Hon oedd yr ail daith ar hugain mewn cyfres yn dyddio yn ôl i 1991. Gogledd-ddwyrain Lloegr oedd cyrchfan y daith y tro yma a chafwyd amser hwylus a gwerthfawr yn ymweld â dinasoedd Lincoln a Durham, Newcastle, Berwick a mur Hadrian. Yn Sepringham cafwyd cyfle i ymweld â'r maen sy'n coffau Gwenllian, unig blentyn Llywelyn ap Gruffudd, a ddaeth yn lleian yn y rhan yma o swydd Linclon. Daeth Mallt a Don Anderson i gyfarfod â ni ac i'n tywys o gwmpas ardal sy'n ein hatgoffa o'r bennod olaf yn hanes Llywelyn.

Cylch y Chwiorydd a'r Froderfa

Mewn cyfarfod ar y cyd brynhawn Mercher, 3 Tachwedd, cafodd aelodau y ddwy gymdeithas amser difyr yn gwranddo ar Arthur Bowen yn canu ac yn olrhain hanes a chefnidir rhai o ganeuon poblogaidd Bois y Frenni o dan arweiniad y diweddar W.R. Evans. O bryd i'w gilydd cafwyd cyfle i ymuno mewn ambell gân a gyfansoddwyd yn arbennig i rai o alawon poblogaidd y dydd. Roedd gitâr Arthur yn offeryn parod i'n tywys a'n diddori am orig fendithiol iawn.

Cymdeithas y Chwiorydd

Y mae Cymdeithas y Chwiorydd unwaith eto wedi bod yn hynod weithgar yn ystod y mis diwethaf. Cynhaliwyd pedwar cyfarfod: y siaradwyr mewn tri o'r cyfarfodydd oedd y Gweinidog, Eira Jones a Glesi Whettleton. Ar gyfer y pedwerydd cyfarfod fe aeth y Gymdeithas allan i westy Holland House ar Heol Casnewydd.

Cwrs Alfa

Ym mis Ionawr, byddwn yn cychwyn cynnal Cwrs Alfa i oedolion trwy gyfrwng y Gymraeg. Os oes diddordeb gan unrhyw un mewn ymuno â ni ffoniwch Alun ar 029 20 490582. Yn anffodus, nifer gyfyngedig o leoedd sydd ar gyfer y cwrs hwn.

Operation Christmas Child

Buom fel eglwys yn casglu bocsys esgidiau ar gyfer ymdrech *Operation Christmas Child*. Casglwyd 40 o focsys. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd.

Y Gymdeithas

Mae'r Gymdeithas Ddiwylliannol yn gyfrwng i'n harwain ar hyd llwybrau diddorol a gwahanol. Nos Wener, 5 Tachwedd cafwyd noson felly yn gwranddo ar y Barnwr Winston Roddick yn olrhain ei ymwneud â'r gyfraith dros flynyddoedd lawer. Cyfeiriodd yn ei sgwrs at ei gyfnod fel ymgynghorydd cyfreithiol i'r Cynulliad Cymreig. Soniodd am ddwyyster a chyfrifoldeb ei alwedigaeth ond bod iddi o bryd i'w gilydd ddfyrrwch a hiwmor. Noson i'w thrysori yn y cof.

Y Grŵp Merched

Nos Lun, 1 Tachwedd, cafodd y Grŵp Merched gyfle i wrando ar sgwrs gan y gwastai, John Hywel, cyn-athro Cerdd Coleg y Brifysgol, Bangor. Cyfraniad Dr Joseph Parry i gerddoriaeth Cymru oedd maes ei anerchiad a chafwyd ganddo noson ddfyrrwch yn cofio marw 'y bachgen bach o Ferthyr' ychydig dros ganrif yn ôl. Cyflwynwyd y siaradwr gan Babs Evans a thalwyd gwerthfawrogiad iddo gan Myfanwy Jarman.

Yr Ysgol Sul

Eleni, yn ystod gwasanaeth diolchgarwch yr Ysgol Sul, derbyniodd ein Gweinidog roddion o fwyd tun a bwydydd sych gan aelodau yr Ysgol Sul ac fe'u hanfonwyd at yr ymgyrch i roi cymorth i blant amddifad newn cartrefi yn Rwmania. Rhoddwyd yr un gefnogaeth i Operation Christmas Child mewn oedfa arbennig fore Sul, 7 Tachwedd. Bydd gwasanaeth Nadolig y plant eleni yn cael ei gynnal nos Sul, 19 Rhagfyr. Ni chaiff parti Nadolig y plant ei gynnal yn ôl ein harfer ond caiff y plant gyfle i ymweld â Llancaiach Fawr fore Mawrth, 21 Rhagfyr. Yn yr hen blasty yma caiff y plant gyfle i brofi rhai o arferion Cymreig y Nadolig a'r flydyddyn newydd. Ar Sul cyntaf y flydyddyn, trefnir bod cyfle i aelodau'r Ysgol Sul ymweld â'r llwyfan sgleffrio y tu allan i Neuadd y Ddinas.

www.dinesydd.com

Cyfle i chi
ddarllen
ôl-rifynnau o'r
Dinesydd



Mিনny Street, Caerdydd

- Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â theulu a chyfeillion **Mr Glyn Evans** a fu farw ddechrau mis Tachwedd ar ôl cyfnod hir yng nghartref nyrsio St. Winifred yn Nhreganna.
- Croesawn dri baban bach newydd i'n plith: **Macsen a Mostyn**, efeilliaid i Rachael a Richard James (Login), brodyr i Ceri ac wyron i Marion a Peter Garside; a **Gwyneth Ella**, merch fach i Angharad a James Gregory (Llundain) ac wyres i Margaret a Gwynne Evans. Dymuniadau gorau i'r ddau deulu.
- Hyfrydwch oedd croesawu **Mrs Didi Morgan** (Treganna) yn ôl i'n plith wedi nifer o flynyddoedd yn Bow Street, Ceredigion, yn oedfa Gymun, nos Sul 17 Hydref.

~ ~ ~

Wedi tawelwch cymharol misoedd yr haf daeth yn bryd ailgydio'n llawn yn amrywiol weithgareddau'r eglwys. Yn dilyn llwyddiant cyfres cyfarfodydd *Celf ac Ati* dros y flwyddyn a hanner diwethaf mae'r Gweinidog y tymor hwn yn ein harwain mewn cyfres newydd – *Gweddi ac Ati* – cyfarfodydd lle byddwn yn ystyried ffyrdd o ysgogi a chynnal gweddi yn ein bywyd bob dydd.

Mae'r Dosbarth Beiblaidd a'r Clwb Ieuenctid hefyd wedi ailgychwyn. Eisoes mae'r ieuenctid wedi cael amrywiaeth o gyfarfodydd yng nghwmni a than arweiniad Owain a Lona – gan gynnwys ymweliad â Mosg Stryd Bute a chyfle i dreulio penwythnos yng Ngholeg yr Iwerydd. Mae'r Gymdeithas hithau wedi ailgychwyn. Yn dilyn oedfa fendithiol yn canolbwyntio ar elusen yr eglwys, Cymdeithas y Beibl, cafwyd nosweithiau gwych yng nghwmni'r Prifardd Dic Jones a Hywel Gwynfryn ym mis Hydref a noson o deithio Cymru o Gwm Gwendraeth i fyny i Chwilog ac yn ôl yng nghwmni Sybil Bevan, Menna Roblin a Peter Griffiths ddechrau mis Tachwedd.

Roedd 17 Hydref yn Sul arbennig iawn. Manteisiwyd ar ddechrau blwyddyn academiaidd i estyn croeso i fyfyrwyr a ieuenctid i'n plith ynghyd â rhoi cyfle i ninnau, fel aelodau, i ystyried yr hyn ydym fel eglwys, a deisyf bendith ac arweiniad Duw arnom. Roedd yr oedfa foreol yn llawn bwrlwm a symud, ac yn cynnwys platau dysgu gyrru, gwiwer a blodau! Roedd yr oedfa hwyrol dipyn tawelach, gan ganolbwyntio ar weddi cyn ein harwain at Fwrdd y Cymun. Yn ystod y

Bethel, Rhiwbeina

Croesawyd aelodau eglwysi eraill Caerdydd i Fethel ar 11 Tachwedd i glywed y Parchedig Robin Samuel yn sôn am waith Cymorth Cristnogol. Ef yw trefnydd Cymorth Cristnogol yn neddwyrain Cymru a chyfeiriodd yn bennaf, â chymorth sleidiau, at waith yr elusen yn Honduras a Nicaragua. Llywydd y noson oedd y Parchedig Glyn Tudwal Jones.

Diolch i bawb a gefnogodd stondin Bethel a Salem ym more coffi a ffair Cymorth Cristnogol yn festri Ebeneser, ar 13 Tachwedd.

Cafodd Mrs Ann Griffiths, Heol-y-Coed, driniaeth yn yr Ysbyty Athrofaol wedi iddi gwympo ger ei chartref. Dymunir gwellhad buan iddi.

pryhawn cafodd nifer ohonom hefyd gyfle i rannu yn llawenydd cyfeillion Bethel, Penarth yn eu hadeilad newydd. Dymunwn bob bendith iddynt wrth iddynt ddechrau pennod newydd yn eu hanes. Daeth y diwrnod i ben wrth i nifer ohonom barhau i rannu cymdeithas a chyfeillgarwch dros bryd o fwyd, yn ein *koinonia* misol.

Dan anogaeth Marged Williams ac Ann Weeks bu nifer o'r aelodau wrthi'n brysur yn gwneud jam a marmalêd ar gyfer gwasanaeth a ffair flynyddol Cymdeithas y Beibl a gynhaliwyd eleni yn Salem, Treganna. Gwaith Cymdeithas y Beibl oedd thema'r oedfa foreol gynnar ym mis Hydref hefyd – mae'n siŵr y gwnaiff ymweliad Mari Jones droednoeth (*alias* Elinor Patchell!) â'r oedfa aros yng nghof y plant (a'r oedolion) am amser. Fis yn ddiweddarach, baner y Gemau Paralympaidd, ynghyd â lluniau rhai o'r cystadleuwyr, fu'n ein hysbrydoli i ganolbwyntio ar yr hyn y gallwn ei wneud wrth i Gareth Blainey rannu rhai o'i brofiadau wrth sylwebu ar y gemau. Aelodau cylch yr Eglwys Newydd fu'n ein harwain yn oedfa hwyrol 14 Tachwedd ac yn ein tywys, ar Sul y Cofio, at waith Waldo a heddychiaeth - gydag anerchiad heriol ac ysbrydoledig gan Aled Gwyn.

Cynhaliwyd cwrdd diolchgarwch dan nawdd Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd ym Minny Street ganol mis Hydref gyda'r gwasanaeth yng ngofal Owain Llyr, a daeth Cwrdd Chwarter Cyfundeb Dwyrain Morgannwg atom nos Fercher, 20 Hydref i glywed un o'n haelodau, Hefin Jones, yn annerch ar "Ddatblygiadau Gwyddonol: yr Her i Gristnigion". Ymunodd llawer ohonom

Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg

Mae tymor yr Hydref wedi bod yn un prysur iawn i ni fel Eglwys. Ar nos Fawrth, 19 Hydref, cynhaliwyd Swper Diolchgarwch arbennig i ddatlu chwarter canrif o'n bodolaeth fel eglwys. Cawsom noson hyfryd gyda lluniaeth flasus ac anerchiad difyr gan Dr John Aaron o Abertawe a bwysleisiodd etifeddiaeth Gristnogol gyfoethog Caerdydd drwy ddangos lluniau o rai o gymeriadau enwog hanes Cristnogaeth yng Nghymru ac olrhain eu cysylltiadau â'r ddinas.

Ym mis Hydref hefyd dechreuwyd ar gyfres achlysurol o ddarlithiau poblogaidd sy'n dwyn y teitl 'Enwogion o Fri 04/05'. Y gyntaf yn y gyfres oedd anerchiad diddorol tu hwnt gan y Parch. Dafydd Job, Bangor, a oedd yn trafod cysylltiadau ei dad-cu, J. T. Job â Diwygiad 1904, trwy gyfrwng ei ddyddiadur. Bydd y gyfres hon yn parhau yn nhymor y gwanwyn gyda'r Parch. Ddr Noel Gibbard yn traethu ar 'Ddiwygiad 1904 trwy Lygaid Gwahanol' (16 Chwefror, 7.30pm) a'r Dr E. Wyn James yn trafod 'Merched a'r Emyr' (16 Mawrth, 7.30pm).

Ac wedi'r holl wleda ac eistedd i wrando ar ddarlithoedd, mae'r rhai mwy heini yn ein plith wedi ffurfio timau Pêl-rhwyd a Phêl-droed sy'n cwrdd bob nos Iau am 9.00pm. Croeso mawr i bawb ymuno â ni – neu i'n herio mewn gêm wrth gwrs! (Ffoniwch Eleri ar 029 2062 8754.)



â chyfeillion ar draws Caerdydd i ddatlu a chofio cyfraniad Howard Goodfellow mewn dwy gyngerdd yn ystod mis Hydref – y naill yn y Gyfnewidfa Lo yn y Bae, a'r llall yng Nghadeirlan Llandaf. Ac wrth i ni ddechrau meddwl am y Nadolig, cawsom gyfle i wneud ychydig o siopa cynnar mewn awyrgylch croesawgar ddechrau Tachwedd wrth i Dianne Bartholomew gynnal noson goffi yn ei chartref a chyfle i brynu nwyddau Masnach Deg ar yr un pryd!

Bu misoedd Hydref a Thachwedd yn rhai byrlymus – ac mae digon o weithgareddau wedi'u trefnu i'n cadw'n brysur dros y misoedd nesaf hefyd. Mae croeso cynnes i chi ymuno â ni.

YR ARCHESGOB ROWAN WILLIAMS YN DERBYN GALWAD GAN MINNY STREET

Yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych, Awst 2001, es i gyfarch y Parchedig Rowan Williams ym mhabel yr Eglwys yng Nghymru; ac yn ystod ein sgwrs gofynnais iddo a fyddai'n hoffi dod ryw ddiwrnod i bregethu yn Gymraeg yng Nghapel yr Annibynwyr, Minny Street. Os felly, byddem yn gwahodd aelodau holl eglwysi Cymraeg Caerdydd a'r cylch i'r oedfa.

Roedd y Parchedig Rowan Williams yn Archesgob Cymru ar y pryd, ond bydd pob un o ddarlennwyr *Y Dinesydd* yn cofio fel yr oedd y cyfryngau ar hyd y misoedd hynny yn arllwys moroedd o inc yn pwyso sawl enw yn eu clorian: pwy a ddô i Gaergaint? Ond ei enw yntau a fyddai'n dod i ben eu rhestr byth a hefyd. Yn wir, roeddwn wedi mentro bod mor feiddgar gellweirus ag awgrymu wrtho yn Ninbych "... Hynny yw, os na fyddwch wedi mynd i Gaergaint erbyn hynny!"

Yn ateb i'r cannoedd o dudalennau a ysgrifennwyd amdano ar y pryd, ei eiriau doeth a chytbwys wrth gael ei holi gan un newyddiadurwr oedd: "The archbishopric of Canterbury is an intimidating, enormous job and it would be a very foolish man who thought he was adequate to its demands."

Wel, er syndod i neb, y Parchedig Rowan Williams a aeth i barchus arswydus swydd Caergaint fisoedd wedi hynny, a bu pawb yma yng Nghymru - i ba enwad bynnag y perthynai, yn fynychwr capel neu eglwys, yn grediniwr claeur neu'n anffyddiwr - yn llawenhau mai efe fyddai yno, ac yn dymuno'n dda i'r Cymro disglair hwn yn wyneb holl ofynion trymion yr offeiriadaeth honno.

Serch hyn oll, mentrais ysgrifennu ato ddechrau'r flwyddyn yma - wedi hir ystyried a ddyllwn neu beidio! - gan ofyn a fyddai'n hoffi cael egwyl yn ôl yng Nghymru drwy ddod i bregethu ryw Sul am 10.30 y bore neu am 6.00 yr hwyr ym Minny Street. Ac yntau â'r fath fywyd prysur ac yn wrthrych holl lygaidd a chlustiau'r miliynau, ni allwn ond ei wahodd i nodi pa ddyddiad fyddai'n gyfleus iddo, a byddem yn sicr o roi gwybod i bob eglwys Gymraeg yn y cylch. Meddwn: "Gwyddom mor eithriadol o brysur yr ydych. Ond ... Efallai?"

CYFRIFIADURON I DDECHREUWYR (Ionawr 2005)

Dyma gwrs difyr drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n addas ar gyfer dechreuwyr llwyr. Mae'n rhedeg am **10 wythnos** heb arholiadau na phroffion a bydd yn cynnwys y pynciau canlynol:

- 1 prosesu geiriau: creu dogfennau syml, golygu a dileu testun
- 2 cyhoeddi bwrdd gwaith: dysgu sut i ddefnyddio *clipart* i ychwanegu lluniau a gwneud poster
- 3 taenlenni: defnyddio fformiwla i wneud cyfrifon syml, gwneud mathemateg yn rhwydd
- 4 cronfa ddata - ychwanegu, trefnu a holi cofnodion gan ddefnyddio rhestrau syml.


Byddwch yn cael eich annog i weithio ar eich cyflymder eich hunain a goeithio erbyn diwedd y cwrs byddwch

Yn ei ateb graslon, cefais sicrwydd y byddai wrth ei fodd yn dod atom, ond bod eleni gystal â bod yn llawn at yr ymylon. Rai misoedd wedyn, dyma neges oddi wrth ei swyddfa yn cynnig noson Sul y Blodau 2005, sef 20 Mawrth. Ond dyma un o nosweithau traddodiadol ein hymdrechion eciwmenaidd ni'n hunain, Anghydfurfwrwyr Cymraeg y ddinas! Cyrddau Blynnyddol y Tabernacl, a ninnau, Annibynwyr, yn mynd at y Bedyddwyr!

Mentrais ffonio'i swyddfa a gofyn a ellid cael ail gynnis, gan nodi ambell noswaith arall "ryng-eциwmenaidd" y capeli, i'w hosgoi pe bai modd. Ymhenn rhai wythnosau, dyma ateb caredig yn cynnig bore'r un Sul, Sul y Blodau 2005, gan nodi bod swyddfa'r Archesgob wedi aildrefnu ei raglen y penwythnos hwnnw er mwyn iddo allu dod atom yn y bore. Ond dyma fore Cymanfa Ganu'r Annibynwyr! Ni allwn yn fy myw fynd yn ôl i Balas Lambeth a gofyn am ddyddiad arall! Doedd dim amdani ond ffonio'r cyfaill, Cedric Jones, ysgrifennydd pwyllgor y Gymanfa. Siaradodd yntau o fewn ychydig oriau â'i gyd-aelodau ar y pwyllgor, a dyma unfrydedd hynaws rhyngddydd nhw i symud y Gymanfa i'r prynhawn.

Felly, bydd Sul y Blodau 2005 yn Sul i'w gofio. Yr Archesgob Rowan Williams yn pregethu yn Gymraeg ym Minny Street yn y bore; Cymanfa Ganu'r Annibynwyr yn y prynhawn yng nghapel newydd Bethel, Penarth; a Chyfarfod Pregethu yn y Tabernacl yn yr hwyr. Gwledd o Saboth, yn wir!

Havard Gregory



yn teimlo'n hyderus ac eisiau dysgu
m w y !

Lleoliadau ac amserau'r cwrs

- 1 Canolfan y Friary bob dydd Iau rhwng 1.00 a 3.00 pm (029 2022 7472)
- 2 Llyfrgell Rhiwbeina bob dydd Gwener rhwng 1.00 a 3.00 pm (029 2061 4392)

I gofrestru, cysylltwch â'r rhifau uchod neu â Dafydd Bridle, tiwtor y cwrs (07779 565889).



Yn priodi cyn bo hir?
Wedi trefnu'r adloniant?
Naddo?

Felly,

Gwasanaethau 007
amdani !

DISGO DWYIEITHOG
ASIAN TWMPTH
SUSTEM SAIN I AREITHIAU
RIG GOLEUO I GRWPIAU BYW

Cysylltwch â Ceri ar
07774 816209 neu
029 20621634
ceri33@btopenworld.com
Ar gael dros Gymru benbaladr
a thu hwnt



CALENDR Y DINESYDD



Llun, 6 Rhagfyr

Menter Caerdydd yng Ngŵyl Aeaf Caerdydd. Carolau yng nghwmni CF1.

Mawrth, 7 Rhagfyr

Cymrodorion Caerdydd ar y cyd â Chymdeithas Eglwys Minny Street a Chymdeithas y Tabernacl. Recordio 'Talwrn y Beirdd' yng ngofal y BBC, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.15 p.m. Meuryn: Gerallt Lloyd Owen.

Iau, 9 Rhagfyr

Cyngerdd Nadolig Côrddydd yn Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.

Sadwrn, 11 Rhagfyr

Ffair Nadolig Ysgol Gymraeg Pwll Coch, Rhodfa Lawrenny, Caerdydd, rhwng 11.30 a.m. a 1.30 p.m., yn Neuadd yr Ysgol.

Llun, 13 Rhagfyr

Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Cinio Nadolig yn festri Eglwys Minny Street, Cathays am 1.00 p.m.

Llun, 13 Rhagfyr

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Darlith gan yr Athro Rhys Williams (Prifysgol Cymru, Abertawe), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

Llun, 13 Rhagfyr

Menter Caerdydd yng Ngŵyl Aeaf Caerdydd. Canu Carolau.

Mawrth, 14 Rhagfyr

Cymdeithas Cymrodorion y Barri. Rhaglen yng ngofal Eilonwy Jones, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

Mawrth, 14 Rhagfyr

Cymdeithas Eglwys Minny Street. Parti Nadolig gyda John Albert wrth y llyw, am 7.30 p.m.

Mercher, 15 Rhagfyr

Cymdeithas Tŷ'r Cymry. Parti Nadolig – ffilm a lluniaeth, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, am 7.00 p.m.

Llun, 20 Rhagfyr

Menter Caerdydd yng Ngŵyl Aeaf Caerdydd. Carolau yng nghwmni Côr Caerdydd.

Gwener, 24 Rhagfyr

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noswyl Nadolig dan ofal Rhys a Gwenda Morgan ym Methel, Rhiwbina am 11.00 p.m.

Sul, 9 Ionawr

Cymdeithas Eglwys Minny Street. Plygain yng Nghapel Bethesda'r Fro am 3.00 p.m.

Llun, 10 Ionawr

Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Ymweliad gan Gangen y Barri, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

Iau, 13 Ionawr

Cylch Cinio Merched Caerdydd, yng Nghlwb Golff Radur am 7.00 pm. ar gyfer 7.30 p.m. Noson dan ofal Islwyn Jones. Manylion pellach: 029-2065-7730 neu 029-2062-4878.

Sadwrn, 15 Ionawr

Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays. Bore coffi i ddsygwyr rhwng 10.30 a 12.00, yn cynnwys sgwrs gan John Emyr ar waith Rhiannon Lloyd yn Affrica. Croeso cynnes i bawb.

Llun, 17 Ionawr

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Dathlu'r Hen Galan ym Methany, Rhiwbina am 7.30 p.m.

Llun, 17 Ionawr

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Thrombosis Gwythien Ddofn, a Dulliau Ataliol Mecanyddol.' Darlith gan Rhys Morris (Ysbyty'r Brifysgol), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

Mawrth, 18 Ionawr

Cymdeithas Eglwys Minny Street. Sgwrs gan Hannah Roberts, 'Hen Feddyginiaethau', am 7.30 p.m.

Mawrth, 18 Ionawr

Cymdeithas Cymrodorion y Barri. Sgwrs gan Carys a Patrick Whelan, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

Mawrth, 18 Ionawr

Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais. Cwmni Drama'r Fedwen, am 7.30 p.m.

Mercher, 19 Ionawr

Cymdeithas Tŷ'r Cymry. Noson y Llywydd, Robat ap Tomos, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, am 7.00 p.m.

Gwener, 21 Ionawr

Cylch Llyfryddol Caerdydd. Y Parch. Harri Parri yn rhoi 'Portread Llenyddol o Elen Roger Jones', yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.

Mawrth, 25 Ionawr

Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais. Noson gerddorol yng nghwmni Iona Jones, am 7.30 p.m.

Gwener, 4 Chwefror

Cymrodorion Caerdydd. Dr R. Elwyn Hughes yn siarad am 'A. R. Wallace: Y Gwyddonydd Anwyddonol', yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.15 p.m.

Gwener, 4 Chwefror

Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais. 'Penny Readings', am 7.30 p.m.

Mawrth, 8 Chwefror

Cymdeithas Eglwys Minny Street. Hwyl yn Ebeneser, Heol Siarl, am 7.30 p.m.

Mawrth, 8 Chwefror

Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais. Sioe Ffasiynau Traidcraft, am 7.30 p.m.

Mercher, 9 Chwefror

Cylch Cadwgan, Manon Rhys: yn siarad ar y testun 'Llun a llyfr' yn Ysgol Gynradd Creigiau am 8p.m.

Llun, 14 Chwefror

Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Dyrinos Thomas yn dweud ei ddweud, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

Mawrth, 15 Chwefror

Cymdeithas Eglwys Minny Street. 'Noson Crafu Pen' yng nghwmni Idwal a Mair Hughes, am 7.30 p.m. Y Cyfarfod Blynnyddol i ddilyn.

Mawrth, 15 Chwefror

Cymdeithas Cymrodorion y Barri. Sgwrs gan Gareth Rowlands, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

Mercher, 16 Chwefror

Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays. Darlith ar y testun 'Diwygiad 1904 Trwy Lygaid Gwahanol' gan y Parch. Ddr Noel Gibbard, am 7.30 p.m. Croeso cynnes i bawb.

Mercher, 16 Chwefror

Cymdeithas Tŷ'r Cymry. 'Creu Deunyddiau Dysgwyr.' Anerchiad gan Edwyn Williams, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, am 7.00 p.m.

Sesiwn Werin y Mochyn Du

Cerddoriaeth Draddodiadol Gymreig bob nos Lun o 8.30 p.m. ymlaen, yn nhafarn y Mochyn Du, Clos Sophia. Dewch i wrando, neu dewch ag offeryn neu lais i ymuno â ni.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

Mae Calendr y Dinesydd hefyd ar <http://www.echlysur.com>

YSGOL IOLO MORGANWG

Bu Alun Cairns, Aelod y Cynulliad dros dde-orllewin Cymru, yn dangos ei ddoniau fel pêl-droediwr yn ddiweddar. Mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan y Gymdeithas Bêl-droed i Ysgolion a chwmini McDonalds llwyddodd Mr Cairns i ennill deg o beli ar gyfer Ysgol Iolo Morganwg. Gwelir ef yn y llun yn eu cyflwyno i blant yr ysgol.

Dathlu 25

Yn ystod Tymor yr Haf eleni bu pob disgybl, o'r ieuengaf i'r hynaf, yn gweithio'n ddiwyd am wythnos gron yn cynllunio ac yn creu mosaig o dan arweiniad Russell a Miss Catrin Stephens, cydlynnydd celf yr ysgol. Llwyddwyd i greu murlun sy'n portreadu nifer helaeth o weithgareddau a phrofiadau bywyd Ysgol Iolo dros y pum mlynedd ar hugain ddiwethaf. Gosodwyd murlun y dathlu yn y cyntedd i bawb gael ei edmygu.

Cynhaliwyd cyngerdd fawreddog i ddathlu'r achlysur ar ddiwedd y tymor yn Ysgol Bro Morgannwg. Cafwyd



eitemau gan bob dosbarth ac roedd yn amlwg fod pob disgybl yn mwynhau pob eiliad. Braff oedd croesawu i'n plith gyn-brifathrawon, athrawon, ffrindiau a chyn-ddisgyblion oedd mor barod i rannu yn y dathliad. Cefnogwyd yr achlysur gan lawer iawn o bobl er mwyn hybu llwyddiant parhaol yr ysgol. Gwnaethpwyd fideo o'r noson ac edrychwn ymlaen at ail-fyw'r profiad unwaith eto.


Cantores Caerdydd 2004

Enw adnabyddus ym myd cantorion ifanc yw Lisa Williams, B6 Ysgol Iolo. Lisa enillodd gystadleuaeth Cantores Caerdydd 2004. Ni fodlonodd ar hynny - cipiodd y wobwr Cantores y Fro 2004 hefyd a hithau yr ieuengaf erioed i ennill

y fraint. Yn ogystal â hynny, llwyddodd i ennill y drydedd wobwr ar yr alaw werin yn Eisteddfod yr Urdd, Ynys Môn 2004. Yn ddiweddar, pan drefnodd y *Bridge Radio* lleol gystadleuaeth *Carol Idol*, roedd Lisa ymhlith y cystadleuwyr. Bu holl ddisgyblion yr ysgol a ffrindiau Lisa yn ffonio drwy'r dydd gyda'u pleidleisiau a daeth yn agos at y brig. Llonyfarchiadau mawr i Lisa ar ei llwyddiant. Mae hi'n ddisgybl i Mrs Eleri Roberts, Tresimwn.



Lisa Williams



Gwersyll yr Urdd Caerdydd

Mae Urdd Gobaith Cymru yn falch o gyhoeddi eu bod newydd agor gwerysll newydd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd. Agorodd y gwerysll ei ddrysau i'w westeion cyntaf ddiwedd mis Tachwedd 2004.

Hwn yw trydydd Gwersyll yr Urdd ac mae'n cynnig llety i 153 o ymwelwyr mewn ystafelloedd *en-suite*.

Mae cyfleusterau'r Gwersyll hefyd yn cynnwys neuadd/theatr, lolfeydd, ffreutur ac ystafelloedd dosbarth.

Mae'r Urdd yn chwilio am sawl GWYLIWR NOS i weithio yng Ngwersyll yr Urdd, Canolfan Mileniwm Cymru.

ORIAU: 10.00pm - 8.00am - gallwch weithio gynifer neu gyn lleied o shifftiau ag yr hoffech!!!

CYFLOG: £53.32 y shifft

GOFYNION: Y gallu i siarad Cymraeg.

Mae'r swydd yn ddibynnol ar brawf CRB gan yr heddlu (oherwydd y byddwch yn gweithio gyda phobl ifanc).

AMLINELLIAD O'R SWYDD: Sicrhau diogelwch y gwerysllwyr a'r adeilad mewn cydweithrediad â rheolwyr y Gwersyll, athrawon, arweinyddion a staff diogelwch Canolfan Mileniwm Cymru.

Os hoffech fod yn rhan o'r cyffro yn Ngwersyll yr Urdd cysylltwch ag Alun Owens - Cyfarwyddwr ☎029 2063 5670 ✉alun@urdd.org

www.urdd.org